

Polisi Addysg Atal Cyffuriau ac Alcohol Ysgol Dolbadarn Medi 2018



Mae'r polisi yma yn egluro beth sydd yn cael ei ddysgu o fewn gwersi Atal Cyffuriau ac Alcohol

Mae'r Polisi yma yn egluro beth mae'r ysgol yn ei ddysgu o fewn gwersi Atal Cyffuriau ac Alcohol er mwyn i blant yr ysgol fod yn gwybod y peryglon o ddefnyddio cyffuriau ac alcohol a beth yw'r effaith ar y corff.

Amcanion - Yn dilyn y gwersi byddwch yn:-

- Gallu dewis gwneud penderfyniadau da am yr hyn sydd yn digwydd i'ch corff
- Parchu eich corff a chorff pobl eraill
- Cymryd cyfrifoldeb dros gadw'r corff yn ddiogel ac yn iach
- Onest ac yn deg a byddwch yn parchu rheolau
- Ymwybodol o reolau'r gyfraith
- Deall pwysigrwydd dweud NA os yw ffrindiau neu unrhyw un arall yn rhoi pwysau arnoch
- Deall sut i wneud penderfyniadau da er mwyn osgoi problemau
- Gwybod beth yw effaith tybaco, alcohol, cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon ar y corff
- Gwybod sut mae ysmegu'n effeithio'r amgylchedd a phobl eraill
- Gwybod beth i'w wneud neu at bwy i fynd os nad ydych yn teimlo'n ddiogel

Sut rydym am wneud hyn?

- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod at bwy neu i ble i fynd am help neu gymorth
- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am linell gymorth Childline
- Gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n ddiogel
- Gwneud yn siŵr bod plant yr ysgol yn cadw'n ddiogel
- Trafod efo'r disgyblion beth y maen't eisiau ei ddysgu o fewn rhaglen addysg atal cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon
- Trafod effaith cyffuriau ac alcohol ar y corff drwy siarad gyda'r heddwes a'r nyrs
- Trafod yn ystod Amser Cylch
- Ymaelodi gyda clwb Bygiau Baco
- Gosod poster neu sticeri **Dim Ysmegu** o amgylch yr ysgol

Byddwn yn Dysgu

- Beth yw moddion neu ffisig a beth yw eu pwrpas
- Beth yw effaith cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon ar y corff
- Dysgu'r sut i barchu ein hunain ac eraill.
Beth yw alcohol a beth yw ei effaith ar y corff
- Sut i gadw'n ddiogel yn y cartref ac yn yr ysgol
- Sut i ddweud Na os oes rhywun yn cynnig alcohol neu gyffuriau i chi

Rhieni a theuluoedd - Byddwn yn gadael i rieni a gwarchodwyr wybod am y polisi hwn drwy:

Rhannu'r polisi trwy wefan yr ysgol neu/a llawlyfr yr ysgol.
Gosod poster neu sticeri Dim Ysmygu o amgylch yr ysgol

Cadw llygaid ar ein polisi

Bydd yr ysgol yn trafod y Polisi bob 3 blynedd er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn a bod ni'n gwneud popeth yr ydym wedi ymrwymo i'w wneud

Llofnodwyd ar ran y cyngor ysgol: Jack Lawes

Pennaeth _____

Llofnod y cadeirydd: _____ Dyddiad: _____